

JEAN FOSTER

Sefydlodd Jean Glwb Pêl-rwyd Llantrisant yn 1983 ac ers hynny mae wedi gwneud cyfraniad eithriadol a pharhaol i bêl-rwyd ers dros bedwar degawd. Yn nyddiau cynnar y clwb, roedd ei tîm iau cyntaf yn hyfforddi mewn maes parcio heb farciau ar y llawr, a oedd yn adlewyrchu penderfyniad a dyfeisgarwch Jean yn gynnar yn ei gyrfa. Aeth y tîm yna ymlaen i ennill y bencampwriaeth leol yn ei flwyddyn gyntaf a symud ymlaen i berfformio'n dda ar lefel genedlaethol. Mae Jean wedi hyfforddi nifer o athletwyr sydd wedi symud ymlaen i gynrychioli Cymru, ac yn fwyaf diweddar, cynrychioli clybiau yn y Gynghrair Genedlaethol.

Heddiw, mae Jean yn hyfforddi tîm dan 12 oed Llantrisant ac yn goruchwyllo hyfforddi ar draws sawl grŵp oedran, gyda dros 250 o chwaraewyr rhwng 6 a 60 oed. Mae hi hefyd wedi chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu dyfarnwyr, gan gynnwys swyddogion sydd wedi symud ymlaen i lefel ryngwladol, Super League, a'r Gynghrair Genedlaethol. Ochr yn ochr â hyfforddi, mae Jean yn Gadeirydd Clwb Pêl-rwyd Llantrisant, Cadeirydd Cynghrair Pêl-rwyd Iau Cymoedd Morgannwg, ac yn Llywydd Pêl-rwyd Cymru. Mae angerdd, arweinyddiaeth a haelioni Jean wedi llywio byd pêl-rwyd yn Rhondda Cynon Taf a thu hwnt, ac mae ei heffaith yn parhau i ysbrydoli cenedlaethau o chwaraewyr.



Chwaraeon RhCT
Sport RCT

GWIRFODDOLWR
Y MIS

EBRILL 2026